CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 11 Mawrth 2019. am 8.00yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod gan estyn pob dymuniad da i Alwena Mair Owen (merch y Clerc) a oedd wedi ennill y wobr gyntaf ar yr Unawd Telyn yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Byddai'n cynrychioli Ceredigion yng Nghaerdydd yn Mis Mai.

AGENDA
Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Ionawr.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.
Yr oedd Cyngor Sir Gâr heb archwilio yr adnoddau chwarae, penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu eto am ddyddiad i archwilio. Penderfynwyd yn unfrydol hefyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â Kangaloos i logi toiledau ar y cae chwarae o 01/04/2019 – 31/10/2019 ac am gost ychwanegol o £5 y mis er mwyn ychwanegu cyfleustrau newid ar gyfer plant.
Roedd angen ffensio o amgylch y Cae Chwarae a byddai adroddiad yn barod erbyn y cyfarfod nesaf.

GWEFAN LLANLLWNI
Roedd adroddiad o gyfarfod mis Ionawr ar y wefan; byddai'n ymddangos yn y rhifyn nesaf o 'Clonc' a 'Clecs Bro Cader.'

Y WE YN Y PENTREF
Roedd y Clerc wedi derbyn cwyn am gyflymder y we yn y plwyf. Roedd BT wedi cysylltu i ddweud bod trafnidiaeth ar yr hewl yn amharu ar gyflymder y we mewn rhai ardaloedd o fewn y pentref.

CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL RHOS-Y-CORN
Daeth llythyr yn gofyn am gefnogaeth i sicrhau rhagor o gilfannau er mwyn i geir basio yn hwylus ar y mynydd. Penderfynwyd yn unfrydol i gefnogi'r cais.

Penderfynwyd cefnogi: Ambiwlans Awyr Cymru; Gofal mewn Galar; Marie Curie; Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst 2019; CFFI Llanllwni; Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2020.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 13 Mai 2019 am 8.00yh.